Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Penparc
Iard yr Ysgol
Penparc
Aberteifi
Ceredigion
SA43 1SG

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2019**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Penparc

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Penparc |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Eleri Davies |
| Person â gofal | Karen Williams |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | 2 -4 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 18 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Ddydd Gwener rhwng 9.00 a 15.30 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac ydi |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydi |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu "cynnig gweithredol" y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Arolwg cyntaf |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 15/01/2013 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 15/10/2019 |
| Gwybodaeth ychwanegol<br><br>Nifer bach iawn o blant sy'n dod o gartrefi lle mae Cymraeg yn iaith gyntaf. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Rhagorol** |
| **Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Rhagorol** |
| **Gofal a datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Rhagorol** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Diffyg cydymffurfio

**Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.**

## Argymhellion

R1 Gwella'r cydbwysedd rhwng gweithgareddau mae oedolion yn eu harwain a'r hyn mae'r plant am eu dewis eu hunan

R2 Sicrhau mwy o gyfleoedd i'r plant allu dysgu a chwarae tu fewn neu thu allan fel y dymunir.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.Bydd Estyn ac AGC yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Rhagorol**

Mae bron pob un o'r plant yn cyfathrebu'n ardderchog ag oedolion ac ymwelwyr. Maent yn ymgartrefu'n gyflym, yn cyfarch ymarferwyr a chyfoedion yn llawen ac mae'r pleser o weld ei gilydd yn dangos yn glir yn eu gwynebau hapus. Mae bron pob un o'r plant yn mynd yn syth at weithgareddau, ac yn gwahodd ymarferwyr yn eiddgar i ymuno yn eu chwarae. Mae'r bwrlwm a'r chwerthin yn adlewyrchu eu mwynhad amlwg wrth iddynt ymgymryd yn yr ystod dda o weithgareddau a phrofiadau cyffrous. Er enghraifft, maent yn ymateb yn llawn cyffro amser stori wrth ddyfalu pa anifail sydd yn dod nesaf a pha sŵn maent yn gwneud. Mae rhan fwyaf o'r plant yn hyderus iawn wrth wneud penderfyniadau a dewsiadau ynglŷn a'u chwarae a'u dysgu yn ystod amser chwarae rhydd. Maent yn hapus i fynd o un weithgaredd i'r llall yn gwbl annibynnol, ac yn canolbwyntio'n llwyr ar eu tasgau. Mae rhan fwyaf o'r plant yn mynegi eu barn a'u hoffterau personol yn llwyddiannus iawn, er enghraifft wrth gynnig mewnbwn i'w themâu drwy ysgrifennu a chreu lluniau ar fapiau meddwl. Mae bron pob un plentyn yn hyderus y bydd ei llais yn cael ei barchu. Er enghraifft, mae plant sy'n dweud neu yn dangos drwy stumiau corfforol nad ydynt yn hoffi'r snac yn cael cynnig dewis arall.

Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn ardderchog ac yn gwrtais dros ben gan dangos parch tuag at eu cyfoedion ac ymarferwyr. Maent yn aros eu tro yn llwyddiannus ac yn ddiffwdan, er enghraifft tra'n peintio mae un plentyn yn dweud wrth y llall “dwi'n gwylio am nawr a fi'n peintio nesa”. Nodwedd cryf iawn o'r lleoliad yw sut mae plant yn cyd chwarae yn dda. Er enghraifft, wrth baratoi swper yn y gegin fwd, mae'r plant yn rhannu tasgau penodol yn frwdfrydig a dychmygus. Mae bron pob un o'r plant yn ymateb yn gadarnhaol iawn i geisiadau'r staff i dacluso neu ddod i eistedd ar y mat.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn deall eu teimladau ac yn mynegi hyn yn ddeallus. Er enghraifft, wrth i blentyn ddisgrifio ei deimladau ar ôl chwarae yn yr ardal allanol trwy ddweud “dwi'n drist achos dwi wedi cael ofn pan o ni'n styc ar y sleid”. Mae'r plant yn dathlu llwyddiant eraill yn arbennig o dda ac yn canmol ac annog eu cyfoedion i wneud eu gorau glas, er enghraifft trwy ddweud “ti'n gallu neud e!”, “da iawn ti” a “bydd yn ofalus!”.

Mae sgiliau annibynol y plant yn fendigedig wrth ymgymryd mewn dyletswyddau dyddiol. Enghraifft dda o hyn yw'r tri helpwr y dydd yn gwisgo ffedogau eu hunain, yn torri ffrwythau ac arllwys diodydd ar gyfer eu cyfoedion yn llwyddiannus. Yn ogystal, mae'r ‘helpwr gwyrdd' yn cymryd cyfrifoldeb am waredu'r gwastraff bwyd yn eco-gyfeillgar. Mae'r plant yn gwisgo a thynnu cotiau ac esgidiau glaw i ffwrdd yn annibynnol ac yn llenwi potiau paent heb gymorth. Mae bron pob un yn dangos dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd hylendid a sut i gadw'n iach. Er enghraifft trwy olchi eu dwylo'n drylwyr heb anogaeth a thrwy ymroi yn llwyr i weithgareddau corfforol.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Rhagorol**

Yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad mae’r rhan fwyaf, gan gynnwys plant sy’n derbyn cymorth ychwanegol, yn gwneud cynnydd arbennig o dda yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a datblygiad corfforol.

Mae rhan fwyaf y plant yn gwrando'n astud iawn ar oedolion a’i gilydd ac yn mynegi eu teimladau’n hynod fedrus iawn drwy ystumiau ac iaith. Mae medrau iaith y plant sy’n newydd i’r Gymraeg yn datblygu’n eithriadol o fuan ac mae’r rhan fwyaf yn ymateb yn helaeth i gwestiynau’r ymarferwyr. Mae’r ychydig o blant sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd yn hyderus iawn wrth ddefnyddio ystod eang o eirfa a thafodiaith gyhyrog leol yn naturiol wrth drafod gyda'i gilydd. Er enghraifft, wrth gydweithio yn y gegin fwd dywedodd un plentyn wrth y llall, “ ma’ tato ffein ‘da ni i swper heno, ond sa i’n lico carots”. Mae bron pob plentyn yn mwynhau straeon ac mae llawer wrth eu bodd yn edrych ar lyfrau a throi tudalennau'n gywir. Mae’r mwyaf hyderus yn ymateb yn fyrlymus iawn wrth ail adrodd stori a rhannu teimladau’r gwningen wrth chwilio am gartref gydag afiaith. Mae llawer yn adnabod eu henwau ac enwau plant eraill wrth hunan-gofrestru ac mae'r rhan fwyaf yn dewis gweithgareddau gwneud marciau yn annibynnol fel rhan o'u chwarae y tu fewn a thu allan. Maent yn dangos rheolaeth feistrolgar wrth ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau yn bwrpasol wrth greu murlun am ddail yr Hydref. Mae bron pob un o yn ysgrifennu eu henw eu hunain yn llwyddiannus ac yn mwynhau gwneud hynny.

Mae gan y rhan fwyaf o blant ddealltwriaeth arbennig o rifau ac maent yn cyfrif gwrthrychau i 10 yn hyderus ac yn adrodd rhifau hyd at 20 yn gyson yn ystod amser cofrestru. Mae’r rhan fwyaf yn cyfateb rhifau â gwrthrychau wrth ddefnyddio offer mathemategol a deunyddiau naturiol yn gywir. Maent yn cael llawer o hwyl wrth gyfateb a gosod wyau wedi eu rhifo yn y mannau cywir yn y blwch pwrpasol ac wrth gyfri llysiau a ffrwythau go iawn yn y siop gan dalu amdanynt â darnau arian. Mae llawer yn enwi siapiau dau ddimensiwn cyfarwydd ac yn defnyddio iaith fathemategol yn gywir mewn cyd-destunau perthnasol fel ‘bach’, ‘canolig’ a ‘mawr’ wrth ddidoli afalau. Mae bron pob un wrth eu bodd yn ymuno mewn caneuon a rhigymau am ddyddiau’r wythnos a misoedd y flwyddyn.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio ystod o offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn hyderus. Maent yn datblygu dealltwriaeth ymarferol o'r defnydd o TGCh wrth ddefnyddio ffôn symudol i dderbyn archebion yn y siop wrth chwarae rôl ac wrth dynnu lluniau gweithgareddau gan ddefnyddio’r llechen gyfrifiadurol. Mae gan lawer o blant ddealltwriaeth dda iawn o sut i greu lluniau gan ddefnyddio’r bwrdd gwyn rhyngweithiol gan ddewis lliw a maint y brws heb fawr o gefnogaeth.

Mae bron pob plentyn yn datblygu ystod o fedrau corfforol yn eithriadol o dda wrth gymryd rhan yn frwd mewn gweithgareddau corfforol dyddiol y tu fewn a thu allan. Maent yn defnyddio offer gwahanol yn fedrus i ddatblygu eu sgiliau cydbwyso, er enghraifft wrth fynd ar feiciau cydbwyso gan eu rheoli’n grefftus neu gamu ar hyd y neidr heb syrthio. Mae medrau echddygol manwl yn datblygu'n dda gyda'r rhan fwyaf o blant yn mowldio, gwasgu ac ymestyn toes ac wrth ddefnyddio offer bach yn annibynnol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau creadigol yn llwyddiannus iawn, er enghraifft wrth greu, torri a pheintio dail yr hydref. Mae llawer yn datblygu'r gallu i ddatrys problemau yn dda, er enghraifft wrth ddatrys sut i lywio tegan o goeden i goeden i gasglu afalau, neu sut i greu'r lliw glas pan nad oedd dim ar gael.

**Gofal a datblygiad: Rhagorol**

Mae perthynas hyfryd iawn rhwng yr ymarferwyr a'r plant. Maent yn adnabod y plant yn arbennig o dda ac yn parchu eu dymuniadau a'u hoffterau. Er enghraifft, maent yn ymateb yn sensitif i blentyn sy'n teimlo'n ansicr mewn tyrfa a phlentyn arall sy'n dewis peidio cymeryd rhan mewn gweithgaredd penodol. Mae'r ymarferwyr yn hollol ymwybodol o anghenion unigol y plant ac yn gwerthfawrogi hyn. Maent yn sicrhau bod preifatrwydd y plant yn cael ei barchu o hyd. Mae'r holl ymarferwyr yn gwrando â diddordeb yn yr hyn mae'r plant yn dweud ac yn chwarae ochr yn ochr â nhw mewn modd sensitif ac ysgogol. Maent yn cyfoethogi eu chwarae yn effeithiol trwy gyflwyno mwy o adnoddau i ymestyn eu medrau iaith a chyfrif.

Mae'r ymarferwyr yn rheoli rhyngweithiadau yn eithriadol o dda ac yn unol â pholisi ymddygiad y lleoliad. Maent yn achub ar bob cyfle i ganmol y plant a diolch iddynt yn ddiffuant am eu help gyda thasgau fel tacluso a pharatoi snac. Maent yn ymhyfrydu yn natblygiad y plant. Er enghraifft, ar ôl i blentyn orffen peintio maent yn dweud "wel da iawn ti, ma hwnna'n ffantastic!" ac ar ôl i helpwyr y dydd gasglu platiau "diolch yn fawr iawn i ti am helpu heddiw, ti wedi neud job da iawn". Mae agwedd addfwyn a thawel yr ymarferwyr yn cael effaith bositif iawn ar ymddygiad y plant sy'n arbennig o dda. Mae'r ymarferwyr yn eistedd gyda'r plant yn ystod amser snac ac yn modelu iaith yn effeithiol drwy ofyn cwestiynau pen agored iddynt.

Mae'r ymarferwyr yn hollol ymwybodol o anghenion unigol y plant. Maent yn cynllunio yn drylwyr iawn ar gyfer eu camau nesaf, yn adolygu cynnydd y plant yn gyson ac yn hysbysu rhieni yn rheolaidd. Maent yn cynllunio gweithgareddau diddorol a hynod atyniadol yn seiliedig ar eu diddordebau, er enghraifft, trwy wneud creision a gwasgu o'r afalau a gasglodd y plant o'r berllan.

Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n ddiwyd ac yn effeithiol iawn i gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Un o gryfderau'r lleoliad yw dealltwriaeth yr ymarferwyr o ddiogelu a gweithdrefnau amddiffyn plant. O ganlyniad, mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo ffordd o fyw iach yn llwyddiannus. Maent yn sicrhau chwarae allanol yn ddyddiol beth bynnag y tywydd ac yn cynllunio gweithgareddau ac adnoddau diddorol i hybu datblygiad corfforol y plant. Er enghraifft, y cwrs rhwystrau. Mae'r ymarferwyr yn glynu'n selog wrth y polisïau sy'n hyrwyddo hylendid ac yn sicrhau bod golchi dwylo a diheintio byrddau yn rhan annatod o'r gwasanaeth. Mae gan bron pob ymarferwr gymhwyster cymorth cyntaf gyfredol ac maent yn gallu trin mân anafiadau neu ddigwyddiadau yn effeithiol. Maent hefyd yn cofnodi digwyddiadau a damweiniau'n drylwyr. Caiff driliau tân eu cynnal yn rheolaidd ac mae'r arweinydd yn cadw cofnod yn drefnus iawn. Mae systemau cadarn yn ei lle i gofrestru plant ac ymarferwyr yn ddyddiol er mwyn sicrhau diogelwch pawb yn y lleoliad. Mae arweinwyr yn sicrhau bod ganddynt y manylion angenrheidiol am y plant er mwyn cynnig y gofal gorau posib.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Rhagorol**

Mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu diddorol, ysgogol a chyffrous ar draws yr holl feysydd dysgu. Mae ystyried diddordebau plant yn hollol greiddiol i sut mae'r ymarferwyr yn cydgynllunio i ddarparu cyfleoedd penigamp i blant ddatblygu ystod o fedrau mewn cyd-destunau gafaelgar. Enghraifft o hyn yw'r profiadau cyfoethog y bu i'r plant yn mwynhau wrth edrych ar fywyd môr ladron. Cawsant wisgo i fyny i deithio ar fws lleol i'r traeth, cerdded y planc tros ddŵr, chwilio am gregyn a'u cyfri, a mwynhau cymdeithasu. Mae'r ymarferwyr hefyd yn trefnu ymweliadau difyr a diddorol er mwyn i blant ddysgu mwy am fywyd a gwaith pobl o fewn eu cymuned. Enghraifft hynod lwyddiannus o hyn oedd ymweld â siop flodau cyn sefydlu siop eu hunain yn y lleoliad. Un o gryfderau amlwg y lleoliad yw'r defnydd cyson a phwrpasol o filltir sgwâr y plant i feithrin balchder yn eu Cymreictod a'u gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd, er enghraifft wrth ymweld â chastell leol a'r chanolfan bywyd gwyllt.

Mae ymarferwyr yn ystyried gwahanol anghenion dysgu plant yn eithriadol o dda wrth iddynt gynllunio gweithgareddau. O ganlyniad, mae llawer yn gwneud cynnydd da ac ychydig yn gwneud cynnydd arbennig o dda cyn gadael y lleoliad. Defnyddir strategaethau gwerth chweil i gynorthwyo plant sy'n dysgu Cymraeg o'r newydd, ac o ganlyniad mae eu hagwedd tuag at wrando, dod i ddeall ac yna magu hyder i fynegi eu hunain yn y Gymraeg yn arbennig. Yn yr un modd, mae'r ychydig sy'n dod o aelwydydd Cymraeg yn cael eu herio i'r eithaf wrth i'r ymarferwyr annog a modelu iaith lafar gyhyrog a thafodiaith leol gyfoethog yn hynod effeithiol.

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod cyfleoedd effeithiol iawn i blant ymarfer a gwreiddio eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn ddyddiol. Mae'r holl ymarferwyr yn datblygu medrau emosiynol plant yn benigamp ac o ganlyniad mae'r plant yn barod iawn i rannu eu teimladau. Mae plant yn elwa ar gyfleoedd hynod gyfoethog i ddysgu y tu mewn a'r tu allan, ac ar gyfer rhyngweithio digymell ardderchog gyda'i gilydd ac oedolion. Mae'r lleoliad yn cynllunio'n effeithiol i adeiladu dealltwriaeth ysbrydol, moesol a diwylliannol plant a'u helpu i ddysgu am ddiwylliant Cymru. Mae'r ymarferwyr yn llwyddo i gael y plant i ryfeddu yn hynod lwyddiannus, er enghraifft wrth arsylwi ar wyau yn deor yn neorfa'r lleoliad.

Un o gryfderau amlwg yr addysgu yw'r ffordd y mae ymarferwyr yn hyrwyddo medrau annibynnol ac ymddygiad cymdeithasol rhagorol y plant. O ganlyniad, maent yn datblygu'r gallu i weithio heb gyfarwyddyd ac mae bron pob plentyn yn cydweithredu'n eithriadol o dda gan gymryd eu tro gyda'u cyfoedion yn barod. Mae perthnasoedd gwaith cefnogol rhwng ymarferwyr a phlant yn datblygu hyder a hunanwerth plant yn effeithiol tu hwnt.

Mae gan bob ymarferydd wybodaeth a dealltwriaeth werthfawr iawn o sut mae plant ifanc yn dysgu orau. Maent yn darparu cyfleoedd gwych i blant arbrofi, a hwyluso dysgu creadigol trwy chwarae pwrpasol. Mae gan ymarferwyr ddisgwyliadau eithriadol o uchel o'r plant ac maent yn defnyddio cwestiynu yn fedrus i asesu dealltwriaeth plant, ac i herio a symud eu dysgu ymlaen yn llwyddiannus.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau cadarn ar gyfer arsylwi ac asesu plant. Trwy arsylwadau rheolaidd mae ymarferwyr yn cael dealltwriaeth drylwyr o'r hyn y gall

plant ei wneud a'r hyn y mae angen iddynt ei ddatblygu. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn gelfydd i gynllunio ar gyfer camau nesaf plant wrth ddysgu. Mae adroddiadau i rieni yn amlinellu'r hyn y mae'r plant wedi'i gyflawni, yn nodi targedau ar gyfer gwella a sut y gall rhieni helpu gartref.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae’r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn darparu amgylchedd diogel. Yn ystod y sesiynau, mae’r ymarferwyr yn sicrhau bod y drysau a’r giât allanol ar gau a dan glo. Maent yn gofyn i bob ymwelydd lofnodi’r llyfr ymwelwyr. Mae arweinwyr yn sicrhau bod system gadarn yn ei lle i sicrhau bod y plant yn gadael gyda rhiant neu ofalwr cyfarwydd.

Mae trefniadau effeithiol yn eu lle ar gyfer sicrhau bod offer ac adnoddau yn cael eu gwirio’n rheolaidd. Er enghraifft, caiff yr offer trydanol a’r offer diffodd tân eu gwirio yn rheolaidd ac yn ôl y gofynion. Mae ymarferwyr yn cynnal gwiriadau dyddiol effeithiol o’r ardaloedd dan do ac allanol er mwyn sicrhau bod yr holl offer yn lân ac yn ddiogel i’r plant.

Cynhelir y cylch mewn caban hunan-gylhaliol ar dir yr ysgol. Mae’n amgylchedd cartrefol a chroesawgar ac yn rhoi cyfleoedd i’r plant fwynhau edrych ar eu gwaith. Er enghraifft, fel yr arddangosfa o luniau’r plant yn casglu llaeth ac wyau o fferm cyfagos, ac enghrefiitiau o’u hunan-bortreadau. Mae arweinwyr yn darparu ardaloedd pwrpasol i hyrwyddo chwarae a dysgu’r plant, gan gynnwys cornel ddarllen gyda llyfrau ac offer i gyd fynd gyda thema’r hydref. Mae’r cornel dawel yn y cyntedd, a’r pod cysurus yn y brif ystafell yn rhoi cyfle i blant ymdawelu neu cael cysur os nad yn teimlo’n dda. Mae’r ardal allanol yn cynnwys gardd gaeedig, cae ac iard yr ysgol ac yn cael ei defnyddio yn rheolaidd i gefnogi’r dysgu.

Mae gan y lleoliad cyflenwad o adnoddau sy’n addas ar gyfer oedran a chyfnod datblygu’r plant. Mae dodrefn o uchder a meintiau gwahanol yn galluogi’r plant i chwarae a bwyta’n gyfforddus ac datblygu sgiliau cymdeithasol. Mae yna ddigon o deganau ac offer o ansawdd da, sy’n darparu amrywiaeth a dewis difyr i’r plant ac yn cefnogi’r dysgu yn bwrpasol. Mae adnoddau wedi eu storio’n isel ac ar lefel y plant ond nid yn cael eu cadw mewn lle amlwg. Er enghraifft, mae’r plant yn gorfod mynd tu ôl y siop fferm i ddod o hyd i’r adnoddau ychwanegol. Mae’r ardaloedd chwarae a dysgu yn cynnwys nifer o adnoddau naturiol, er enghraifft llysiau a ffrwythau go iawn yn y siop fferm ac wyau wedi berwi yn yr ardal mathemateg. Mae’r ardal allanol yn cynnig cyfleoedd buddiol i hybu annibyniaeth y plant, er enghraifft, y tap dŵr sydd wedi ei leoli ar lefel y plant. Mae ymarferwyr yn darparu ystod eang o adnoddau i hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol a helpu’r plant i ddysgu am eu byd.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol**

Mae’r arweinydd wedi sefydlu, rhannu a gwireddu gweledigaeth hynod o glir gyda phawb sy’n rhan o gymuned hapus y lleoliad. Mae wedi creu ethos cadarnhaol a hynod gynhaliol fel bod plant ac ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac am roi o’u gorau. Mae’r arweinydd yn arwain trwy esiampl ac adeiladu tîm hynod effeithiol sy’n darparu awyrgylch ddysgu arbennig o ysgogol a chyffrous i’r plant ddatblygu a blodeuo ynddo. Mae’n gwneud hyn drwy osod disgwyliadau uchel iawn i bawb gan eu cynorthwyo a’u herio i wneud eu gorau. Mae

hyn yn cael effaith rhagorol ar safonau a lles y plant yn ogystal â’r ddarpariaeth sy’n arbennig o lwyddiannus.

Mae arweinwyr wedi sefydlu gweithdrefnau llwyddiannus iawn i adnabod cryfderau’r lleoliad ac unrhyw feysydd sydd angen eu gwella.  O ganlyniad mae ganddynt adnabyddiaeth drwyadl iawn a chywir o’r lleoliad.  Mae’r arweinydd yn hyrwyddo a chynnal gwelliannau yn llwyddiannus tu hwnt.  Enghraifft benodol o hyn yw’r cyfarfodydd staff hynod effeithiol sy’n neilltuo amser pwrpasol i fyfyrio, adnabod, a gweithredu ar yr hyn sydd angen eu datblygu ymhellach.  Mae trylwyredd yr arweinyddiaeth i’w weld yn y monitro a’r gwerthuso o’r gwelliannau hyn sy’n sicrhau bod arferion da yn gwreiddio’n gadarn ac yn cael effaith gadarnhaol iawn ar draws y lleoliad.  Mae'r rhain wedi arwain at welliannau diweddar, fel cyflwyno'r fasged llyfrau darllen yn ddyddiol cyn amser ffrwyth i fagu hoffter at lyfrau a i roi cyfle i blant ymdawelu.

Mae’r arweinwyr yn goruchwylio gweithdrefnau hynod effeithiol ar gyfer recriwtio'n ddiogel, a rheoli staff ac adnoddau.  Mae’r dull cynhwysol o arwain yn arfogi ymarferwyr yn llwyddiannus i ymgymryd â’r cyfrifoldebau sydd wedi eu dirprwyo iddynt.  Mae hyn yn cynnwys rhannu cyfrifoldeb am weithgareddau datblygu medrau llythrennedd a rhifedd.  Mae arweinwyr wedi gosod system oruchwylio ac arfarnu buddiol iawn ynghyd â systemau pwrpasol iawn i gefnogi lles a datblygiad proffesiynol y staff.  Mae’r ymarferwyr yn cael ystod werthfawr iawn o hyfforddiant sy’n dylanwadu’n gadarnhaol iawn ar y ddarpariaeth wrth iddynt weithredu ar yr hyfforddiant a defnyddio’r adnoddau.  Er enghraifft, creu podiau gorffwys yn dilyn cwrs creu ardalaoedd cyfathrebu cyfeillgar.

Mae arweinwyr yn defnyddio cyllid yn ddoeth i gefnogi gosod blaenoriaethau gwella a diwallu anghenion plant yn effeithiol.  Maent yn darparu adnoddau deniadol o ansawdd da sy'n cefnogi lles plant a datblygiad cyfannol yn hynod lwyddiannus.  Mae cylchoedd eraill yn manteisio ar gyfleoedd i ddysgu arfer da drwy ymweld â’r lleoliad.

Un o gryfderau amlwg y lleoliad yw’r berthynas arbennig maent wedi ei greu â rhieni.  Maent yn cyfathrebu’n gyson â hwy ac yn eu hannog sut i helpu eu plant i ddatblygu.  Gwahoddir rhieni i ymweld â’r lleoliad  ar ddiwedd bob hanner tymor er mwyn trafod datblygiad eu plant ac i arsylwi arnynt.  Mae’r lleoliad wedi sefydlu bartneriaeth cryf iawn gydag Ysgol Penparc sy’n sicrhau bod y plant yn ymgartrefu’n fuan ar ôl dechrau.  Yn ogystal, mae’r lleoliad yn elwa’n fawr o rannu adnoddau a phrofiadau fel tripiau i’r theatr gyda’r ysgol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 17/12/2019